# Tafod Elái

GORFFENNAF 1991 Pris 25c RHIF 59


## DATHLU DAU BENBLWYDD

Ni bu noson fel nos Sul Mehefin y degfed-ar-hugain ym Methlehem, Gwaelod y Garth. Ni ddisgwylir un eto. Dau ddiacon yn dathlu penblwydd yn naw deg! Y ddau wedi eu geni y drws nesa i'w gilydd, a dim ond tridiau sy'n eu gwahanu. Peth prin, sobor o brin, bellach yw brodorion o'r Gwaelod. Dyna yw'r ddau yma.

Cyfeirio ydw i at T.W. Thomas, Greenhurst, Pentyrch, neu a rhoi iddo ei enw yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain, Ab Eos. Mae'n un o Gymrodyr yr Eisteddfod Genedlaethol. A'r llall yw Trefor Phillips, sy'n byw yn yr Eglwys Newydd. Mae'r ddau yn rhan o'r wythien fawr yn y Gwaelod, Y PHILIPIAID, teulu dylanwadol ac a gyfrannodd lawer i'r fro, ac yn arbennig i'r capel. Mae dyled Bethlehem yn fawr iddynt.

Codwyd y ddau o dan weinidogaeth y patriarch R.G. Berry, ac y mae dylanwad y gwron hwnnw yn drwm arnynt. Gwir i T.W. a Trefor fynd i feysydd gwahanol. Trefor â diddordeb mawr mewn chwaraeon ac yn fedrus fel cricedwr a bowliwr a deil i gymryd diddordeb mawr yn y gemau yna. Ni chadd yr iechyd gorau yn ddiweddar ac am hynny ni fedrodd fynd a dod fel y dymunai. Ond fe'i gwelir yn gyson yn y Gymanfa. Un o gynheiliaid y sefydliad hwnnw.



T.W. Thomas a Trefor Phillips

Deil T.W. yn fythol wyrdd. Yn yr oedfa bob Sul ac fe wyddoch ei fod yno! mae'n porthi, ffenomenon anghyffredin y blynyddoedd hyn a pharod yw i ddyblu'r gân yn fynych. Gŵr ydyw a gymrodd ddiddordeb mawr yn ei fro ac y mae'n fwnglawdd o wybodaeth a hanesion difyr am gymeriadau yr ardal. Beth bynnag, Nos Sul ola' o Fehefin daeth aelodau'r capel ynghyd i ddiolch a dathlu. Paratowyd gwledd gyda chacen hardd wedi ei chrasu gan Eluned Davies-Scott a chadd y ddau dorri'r gacen. Bu'r beirdd wrthi yn canu eu teyrngedau i'r ddeuddyn. Noson hwylus, noson ddiddan, noson o ymhyfrydu fod dau wedi eu cadw cyhyd a'u gwasanaeth i'w capel yn nodedig.

Cyd-chwaraesant yn blantos, a pharhau'n
Ddau ffrind drwy bob achos;
Triw o hyd wrth fyned dros
Eu naw deg - ffrindiau agos.

Dau ystwyth ein llwnc destun - yn naw deg
Eu dau, fel dau ferlyn;
Yn naw deg, dau hynod ŷn;
Yn naw deg fel dau hogyn.

Bydded iddynt iechyd da i'r dyfodol. Bydd Tefor yn cael ei benblwydd ar y 15ed o Orffennaf, ac yn ei ddathlu yn 56 Manor Rise, Yr Eglwys Newydd, a T.W. ar y 18ed o Orffennaf, yntau yn yr un modd yn dathlu yn Greenhurst.

## AR ÔL YR EISTEDDFOD

Dwi'n cofio 'nhad yn sôn am yr wythnosau hynny yn union ar ôl diwrnod yr ail ryfel byd. Meibion a merched, a wthiwyd i'r eithaf, yn methu'n lân rhywsut â dygymod â'r gwagle corfforol a meddyliol a brofent yn sgîl yr heddwch. Digon tebyg, yn ôl pob sôn, ydy profiad cannoedd o drigolion Taf Elái, yn oedolion a phlant, ers diwedd y 'Steddfod! Pawb yn falch o'r llonydd, ac eto'n hiraethu am y bwrlwm.

Ar ddiwedd y rhyfel wrth gwrs, aethpwyd ati i harnesu egni'r brwydro i'w ddefnyddio i wireddu'r gobaith ac i adeiladu dyfodol. A ydym ninnau am wneud yr un peth yn Nhaf Elái? Harnesu'r egni a'r brwdfrydedd eisteddfodol, a'i sianelu tuag at wireddu'r gobaith y sonwyd cymaint amdano yn yr Ŵyl, ac i adeiladu dyfodol sicr i'r Gymraeg yn y fro hon.

Bydd hi'n ddiddorol gweld beth fydd argymhellion y gweithgor, dan gadeiryddiaeth Wyn Rees, wrth gyhoeddi canlyniadau'r "arolwg gweithgareddau Cymraeg". Sut ddôs o wrtaith tybed fydd yn addas i droi "egin dw' yn gnwd o ŷd"?